

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12fed, 2013 o Gyngor Tref Y Bala

Presennol: Y Maer, Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, John C Williams, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1027 Croesawyd y Cynghorwyr a derbyniwyd Ymddiheuriadau oddi wrth Dilys Evans, Islwyn Pritchard Jones a Shan Ranson.

1028 Nid oedd cyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd ac nid oedd neb yn datgan diddordeb mewn mater ar yr Agenda. Nid oedd materion yn codi o gyfarfod Tachwedd nad oedd eisoes ar yr Agenda.

1029 Cytunwyd i roi mater Cofrestr Buddiannau ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

1030 Materion y Cynghorydd Sir:

- i. Addurniadau yn y dref: Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi'r Grŵp Twristiaeth yn eu cais am arian i brynu baneri, ar yr amod fod geiriad y baneri yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor Tref. Cytunodd Alun Price i fynegi dyheadau'r Cyngor. Cyfarwyddwyd y Clerc i drafod cynlluniau croeso gweladwy i'r Eisteddfod gyda swyddogion Eisteddfod yr Urdd. **Gweithredu: Alun Price, Clerc**
- ii. Grant i wella Delwedd y Dref:
 - a. Lle parcio dynodedig i'r anabl tu allan i'r Co-op: **Gweithredu: Clerc** i astudio'r ohebiaeth flaenorol a chysylltu gydag Asiantaeth y Cefnffyrdd.
 - b. Hysbysebu'r Domen: mae gwybodaeth ar y copa, ar y we ac ar y Tro Trefol. Cytunwyd y gellid rhoi gwybodaeth ar y gât.
 - c. Cytunodd **Y Maer, Ivora Jones, Edith Roberts, Sharon Evans ac Alun Price** i lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cyngor Tref yn seiliedig ar ganfyddiadau grŵp Delwedd y Dref.
- iii. Eryrod Eira: Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi'r Cynllun Peilot hwn ac i gefnogi'r achlysur tynnu lluniau (16/12/13 am hanner dydd wrth Y Llew Gwyn)
- iv. Cynllun archfarchnad newydd: roedd y Cynghorydd Sir a'r Clerc ill dau wedi cysylltu'n uniongyrchol gyda phob aelod o Bwyllgor Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri i fynegi'r angen am groesfan efo goleuadau i'r safle. Roedd Cyngor Gwynedd hefyd wedi mynegi pryder am ddiogelwch. Cytunwyd i ysgrifennu'n uniongyrchol at y Co-op, a oedd wedi mynegi parodrwydd yn y gorffennol i greu croesfan. Bydd y Cyngor Tref yn ystyried apelio at y Cynulliad os na ellir cael y maen i'r wal.

1031 Materion Lleol

- i. Cytunwyd i drafod cyflwr y gwaith pren ar y domen ac ar asedau eraill yn y cyfarfod nesaf (Dilwyn Jones).
- ii. Tynodd Eifion Roberts sylw at ddata ar amddifadedd ymysg plant sydd yn gosod ardal Y Bala yn y grŵp gyda'r amddifadedd uchaf ond un yng Ngwynedd.

1032 Materion Cynllunio

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i'r ceisiadau canlynol:
 - a. NP5/53/519 i greu 2 le parcio ar dir ym Mro Eryl
 - b. NP5/53/LB232A (1, Heol yr Orsaf)
 - c. NP5/53/LB291A (36, Heol Tegid)
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/53/521, sef adeiladu estyniad llawr cyntaf i 6 Maes Treflyn
Gweithredu: Clerc

1033 Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol.
- ii. Cytunwyd i dalu
 - a. Vodafone - £6.15 (contract)
 - b. Clerc am "credit" £10 ffôn talu –wrth –fynd
 - c. Cyflog y Clerc
- iii. Derbyniwyd derbynneb John Roberts, archwilydd.
- iv. Trefnir cyfarfod o'r is-bwyllgor Cyllid (i osod Cyllideb 2014-15 ac argymhell lefel y Praesept)
Gweithredu: Clerc

1034 Gohebiaeth

a. Llywodraeth Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar gynlluniau i Ddirymu ac ail-wneud Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth mai £7.20 yw'r swm priodol o dan "Gwariant dan Adran 137 4a"

b. Cyngor Gwynedd

- i. Derbyniwyd ymateb Rheolwr Gwasanaeth Stryd i'r pryder am faw cŵn; mae angen gwybodaeth am berchnogion cwn sy'n baeddu a/neu amseroedd tebygol. Gellir cysylltu gyda'r Swyddog Gwasanaeth Stryd neu'r Clerc.
- ii. Cytunwyd i'r Clerc gwblhau ffurflen gais Cist Gwynedd am gymorth i greu gwefan a chydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn . **Gweithredu: Clerc**
- iii. Nodwyd gwahoddiad i seminar ar gynllun datblygu Gwynedd a Môn.
- iv. Nodwyd Papur ar safleoedd adeiladu posibl (Cynllun Gwynedd a Môn).

c. Un Llais Cymru

Oherwydd diffyg gwybodaeth am yr ymgeisyddion, cytunwyd i beidio a phleidleisio yn yr etholiad am gynrychiolydd Un Llais Cymru i Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

d. Heddlu

- a. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth “Gan Bwyll” am gyfartaledd cyflymdra ar hyd Heol Pensarn, a derbyniwyd gwybodaeth bellach fod y ffordd yn awr yn “safle byw”.
- b. Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Arolygydd Mark Armstrong am fethu bod yn bresennol yn Ionawr. Gwahoddir yr Arolygydd Dewi Jones yn ei le. **Gweithredu: Clerc**
- c. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Iwan Roberts am fethu bod yn bresennol yn Ionawr, a’i gynnig i fod yn bresennol yng nghyfarfod mis Ebrill; derbyniwyd gwybodaeth ganddo am faterion eraill.
- d. Derbyniwyd gwybodaeth am amnest cyllyll.
- e. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrch atal yfed a gyrru.
- f. Nodwyd cais Winston Roddick am dystiolaeth.

e. Eraill

- i. Derbyniwyd lythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Shan Ranson a chytunwyd i anfon ati i fynegi gwerthfawrogiad o’i chyfraniad gwerthfawr iawn i’r Cyngor ac i’r Bala. Cyfarwyddwyd y Clerc i gymryd y camau priodol ar gyfer y sedd wag. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Derbyniwyd ymateb positif gan y Gymdeithas Beiblau parthed cyflwr bwrdd gwybodaeth am Mari Jones
- iii. Derbyniwyd copi o’r cylchgrawn *Clerks and Councils Direct*
- iv. Derbyniwyd copi o gylchgrawn *Chwarae Cymru*

1035 Asedau’r Cyngor – Cytunodd Sharon Evans i wirio’r Asedau

1036 Partneriaeth Penllyn – adroddwyd bod gwaith adeiladu yn mynd ymlaen ac angen clirio yn yr Henblas. Fe wnaeth nifer ddangos diddordeb yn ystod y noson siopa hwyr.

1037 Trefniadau’r Nadolig: Cytunwyd i ystyried a oedd yn briodol i feirniadu addurno ffenestri siopau yn dilyn y Noson Siopa hwyr ac i weithredu yn ôl doethineb o dan yr amgylchiadau. Mwynhawyd Noson Siopa hwyr lwyddiannus a mynegwyd diolch i’r busnesau, y cerddorion a’r grwpiau eraill a wnaeth ymdrech arbennig unwaith eto eleni. Mae Cyngor y Dref yn talu am y goleuadau ar y coed byw yn y Stryd Fawr ac yn cyfrannu at osod coed Nadolig bychain uwch ben busnesau’r dref, ond teimlwyd y gellid uwchraddio’r addurniadau ar gyfer y dyfodol. Gan fod y Cyngor yn dymuno cydweithio gyda busnesau’r dref, cytunwyd i geisio cyfarfod gyda’u cynrychiolwyr i ystyried gwelliannau. Cyfarwyddwyd y Clerc i ddarganfod beth ydyw’r sefyllfa mewn trefi cyfagos. **Gweithredu: Clerc**